Diweddariad Bwrdd Rhaglen Strategol Tachwedd 2022

# RHAGLEN STRATEGOL AR GYFER GOFAL SYLFAENOL

## CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

E-bostiwch ni : sppc@wales.nhs.uk
Dilynwch ni ar Twitter @SPPCWales
***Cliciwch yma*** i weld ein fideos a'n recordiadau o ddigwyddiadau
Ewch i'n gwefan: Rhaglen Strategol - Gofal Sylfaenol Un (GIG. Cymru)

## NEWYDDION ARALL

### Cyfeirio pobl ag anghenion gofal brys i'r lle cywir, y tro cyntaf

Fel rhan o'r **Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng,** lansiwyd ymgyrch GIG 111 Cymru ar Dydd Llun 14 Tachwedd 2022. Wedi'i noddi gan Gôl 2, i "g*yfeirio pobl ag anghenion gofal brys i'r lle cywir, y tro cyntaf*", nod yr ymgyrch genedlaethol yw cynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth yn GIG 111 Cymru, a helpu cleifion ag anghenion gofal brys i gael y gofal cywir, yn y lle cywir, y tro cyntaf. **Gallwch gael mynediad i'r pecyn cymorth a'r banc asedau yma.**

**111 Ar-lein. Ar y ffôn.** Cyngor gofal iechyd y gallwch ymddiried ynddo 24|7. Os ydych chi'n teimlo'n anhwylus, ond ddim yn siŵr beth i'w wneud, neu i ble i fynd, gall GIG 111 Cymru helpu. Mae GIG 111 Cymru yn darparu cyngor gofal iechyd arbenigol ddydd a nos, ar-lein ac ar y ffôn, gan ei gwneud hi'n haws i chi gael y gofal iawn, yn y lle cywir, y tro cyntaf. Gall **Gwefan GIG 111 Cymru** wirio'ch symptomau, darparu cyngor gofal iechyd dibynadwy, a'ch helpu i ddod o hyd i'ch meddyg teulu lleol, fferyllfeydd, Uned Mân Anafiadau a gwasanaethau proffesiynol eraill gerllaw. Os oes gennych chi neu anwylyn bryder brys ond nad yw'n peryglu bywyd, ffoniwch 111 a bydd ymatebwyr sydd wedi'u hyfforddi'n drylwyr yn rhoi cyngor dibynadwy i chi ar eich camau nesaf.

### Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol (BGSC)

Cynhaliwyd BGSC ar 11 Tachwedd. Derbyniodd y Bwrdd adroddiadau am drafodaethau a chymeradwyaethau gan gynnwys

- Adroddiad diweddaru canol blwyddyn RhSGS
- Adroddiad diwedd Cam 2 y Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (CGSB)
- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl mewn Gofal Sylfaenol
- Manyleb Nyrsio Cymunedol

Derbyniodd y Bwrdd ei ddiweddariadau rheolaidd hefyd gan:

Cyfarwyddwyr Grŵp Cymheiriaid Gofal Sylfaenol; yn canolbwyntio'n benodol ar gynaliadwyedd GMC

Grŵp Cymheiriaid Clwstwr Cymru Gyfan; yn cynnwys adfyfyrdodau ar Arolwg diweddar ymhlith
Arweinwyr Clystyrau
Cynnydd Rhaglen Cyfarwyddebau Gofal Uwch (CGU); diweddariad ynghylch Rhestr Wirio Parodrwydd CGU
111 /Tu Allan i Oriau
Llywodraeth Cymru

Yn dilyn BGSC cynhyrchir cyfathrebiad cryno, os hoffech dderbyn copi anfonwch e-bost at: sppc@wales.nhs.uk

## YN DOD Y MIS NESAF

Mae **Grŵp Cyfeirio Gofal Sylfaenol a Chymunedol** wedi'i drefnu ar gyfer 15 Rhagfyr. Byddwn yn ymgysylltu ynghylch Egwyddorion a Chydrannau y Model CGSB drafft; cwmpasu rhaglen o waith ar y cyd ag AaGIC i ddatblygu Cynllun Gweithlu Gofal Sylfaenol i Gymru a bydd yn chwilio am adborth cynnar gan ddefnyddwyr ar y Pecyn Cymorth Seilwaith Cymunedol a Phecyn Cymorth Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys sydd i'w lansio ar Gofal Sylfaenol Un yn ystod y 2 wythnos nesaf.

# NEWYDDION

**Diweddariad Canol Blwyddyn y Rhaglen Strategol:** mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o gynnydd rhwng Ebrill 2022 a Hydref 2022, yn nodi gwaith yr Arweinwyr Cenedlaethol ac yna'n bwrw golwg ymlaen ar gyfer ein rhaglen waith yn 2023. Un o'r datblygiadau mwyaf nodedig fu'r gwaith ar draws rhaglenni cenedlaethol – 6 Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng, Rhaglen Iechyd Meddwl, a gyda rhanddeiliaid ehangach a Grwpiau Cymheiriaid cenedlaethol, ac wrth i ni symud yn ein blaen, rydym yn bwriadu adeiladu ar hyn. Mae'n dda hefyd gweld cynnydd pellach mewn gofal sylfaenol a chymunedol o ran cynllunio system gyfan ac mewn perfformiad ehangach a thrafodaethau dyddiol ar uwchgyfeirio.

**Datblygu Cyflym Clystyrau:** mae pennod newydd wedi'i hychwanegu at becyn cymorth CGU, Pennod y Gweithlu . Mae'n cynnwys adnoddau'n ymwneud â Gweithlu Sylfaenol a Chymunedol a Chynllunio'r Gweithlu.

Cafodd y **Fanyleb Nyrsio Cymunedol:** ei chymeradwyo gan y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol a **Chyfarwyddwyr Gweithredol y Grŵp Cymheiriaid Nyrsio.** Mae'r Fanyleb **yn amlinellu ar lefel strategol, egwyddorion, nodweddion, a swyddogaethau cyffredinol Nyrsio Cymunedol yng Nghymru ar gyfer unigolion 16**

**oed a hŷn, a’i nodau, sef safoni, symleiddio a chydweithio. Dyma gynnyrch allweddol cyntaf y llif gwaith Seilwaith Cymunedol.**

Mae **Adroddiad Gwerthuso Cam 2 y Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (CGSB):** wedi'i gyhoeddi, sy'n dal cynnydd, dysgu a'r camau nesaf ar gyfer y model CGSB. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd da sy'n cael ei wneud ledled Cymru a lefelau uchel o foddhad cleifion o ran y gwaith sydd wedi’i wneud hyd yn hyn (80%+). Ar hyn o bryd mae'r 8 canolfan CGSB yn gwasanaethu 1.8m o'r boblogaeth mewn 256 o bractisau GMC yng Nghymru gyda chynlluniau i gynyddu ac ymledu ymhlith **poblogaeth gyfan Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys negeseuon allweddol fel y dystiolaeth amlwg a chlir mewn perthynas â gweithio ehangach mewn disgyblaethau.**

Cafodd adroddiad **Iechyd Meddwl a Lles – Adolygiad Cenedlaethol o alw a Gweithgareddau Iechyd Meddwl:** ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at themâu allweddol o ran darparu cymorth iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol, proffiliau galw a gweithgaredd ar gyfer pob bwrdd iechyd, braslun o’r amrywiaeth yn y ddarpariaeth ledled Cymru gan gynnwys darpariaeth cymorth iechyd meddwl y trydydd sector. Mae consensws o ran gwaith yn y dyfodol ynghylch ffocws ar yr amrywiaeth sylweddol ddiangen yn y ddarpariaeth gwasanaethau, ystyried terminoleg a diffiniadau cyson yn y dyfodol o ran iechyd meddwl gofal sylfaenol, mwy o eglurder ar y rhyngwyneb a’r gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau a mwy o gysondeb wrth gomisiynu’r hyn sydd ei angen o ran iechyd meddwl yn y trydydd sector ledled Cymru ac y dylid creu 'Cynnig Cenedlaethol' sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol hygyrch ac effeithiol ledled Cymru.

Mae’r **fforwm arweinwyr Clystyrau** yng Nghymru wedi cynhyrchu fideo Sgwrsio ag Arweinwyr y Clystyrau sy’n cynnig adfyfyrdodau defnyddiol ar weithio mewn Clwstwr yng Nghymru. Mae hwn a llawer mwy o fideos ar gael ar ein Sianel RhSGS ar YouTube.

Cynhaliwyd gweithdy **Mesur Dyddiau Iach Gartref i Gymru (DIGG):**ar 16 Tachwedd, ac roedd yr ymgysylltu drwy gydol y digwyddiad yn galonogol, gyda hyd at 74 yn y gynulleidfa ar ei uchaf. Cytunwyd ar bedair fformiwla DIGG genedlaethol i Gymru (cydrannau a phwysoli) ar gyfer naill ai lansiad beta ym mis Ionawr 2023 neu lansiad ffurfiol ym mis Ebrill 2023 ar gyfer y dashfyrddau cenedlaethol a lleol. Cytunwyd ar gwmpasu datblygiadau pellach (gan gynnwys data cymdeithasol); manylion i'w cynnwys yn yr adroddiad wedi’r gweithdy. Yn dod cyn bo hir…

Bydd adroddiadau a phapurau y sonnir amdanynt uchod ar gael pan fydd y ddwy iaith ar gael ar Gofal sylfaenol Un. Os hoffech gael copi o unrhyw adroddiadau cyn hynny e-bostiwch: sppc@wales.nhs.uk

# EFALLAI EICH BOD WEDI COLLI'R RHAIN

**Pyrth Gwella ar gyfer Cydweithrediadau Proffesiynol a Chlystyrau** Mae AaGIC, gan weithio gyda'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, wedi datblygu cyfres o adnoddau i gefnogi arweinwyr newydd a rhai presennol o fewn gofal sylfaenol yn eu taith fel arweinwyr.

Gellir mynd i'r safle drwy Cydweithrediad Proffesiynol - Porth Arweinyddiaeth AaGIC Gwella ar gyfer Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: heiw.gwella@wales.nhs.uk